Ymgynghoriad ‘Penderfyniadau Anodd’ – ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Pwrpas Ymgynghoriad y Gyllideb 2021-22 oedd:

- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd am faint yr her ariannol sy’n parhau i wynebu’r Cyngor a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd;
- Gwella gwybodaeth y cyhoedd am ein siwrnai ailffurfio ers cyflwyno’r mesurau cynni ariannol cyntaf tua diwedd 2008, yn dilyn argyfwng ariannol 2007-08;
- Deall barn y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol eraill am eu syniadau ar gyfer mwy o doriadau yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau.

Y dull ar gyfer Ymgynghoriad y Gyllideb 2021-22

O ystyried yr amgylchiadau anghyffredin sydd ar hyn o bryd, cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori dros gyfnod byrrach ac fe gafodd ei rannu’n ddwy ran. Cynhaliwyd Rhan 1 yn y cyfnod cyn i’r setliad dros dro gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (o 30/11/2020 tan 13/12/2020). Cynhaliwyd Rhan 2 ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi’r setliad ariannol (o 20/01/2021 tan 05/02/2021).

Roedd arolwg Eich Llais ar gael ar fformat ar-lein ac ar bapur yn ystod y ddwy ran o’r ymgynghoriad. Roedd aelodau’r cyhoedd hefyd yn gallu ymateb yn ysgrifenedig neu dros e-bost i gyfrif e-bost penodol. Cafodd nifer o negeseuon e-bost wedi’u targedu eu hanfon at grwpiau penodol o fudd-ddeiliaid a chynrychiolwyr grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir, er enghraifft, Senedd yr Ifanc a Chynghorau Cymuned. Yn y ddau gyfnod ymgynghori, darparwyd llyfryn o wybodaeth i’r cyhoedd a oedd yn eu hatgoffa am y chwe blaenoriaeth yr oedd y Cyngor wedi cytuno arnynt (cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheiny ym Mehefin a Gorffennaf 2019), yn cynnwys cyfeiriad at yr adborth ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’ o’r ymgynghoriad blaenorol ar y gyllideb a diweddariad am Dreth y Cyngor.

Roedd cyfanswm o 299 o ymatebion i Ran 1 o’r ymgynghoriad a 646 o ymatebion i Ran 2. Hoffem ddiolch i’r holl bobl a grwpiau hynny a gymerodd ran.

Rhan bwysig iawn o unrhyw ymgynghoriad yw rhoi adborth i'r rhai a gymerodd ran am yr hyn sydd wedi digwydd ers iddynt roi eu barn, a pha effaith mae eu barn wedi’i chael. Mae’r broses o roi adborth yn ymwneud â dangos lle mae’ch safbwyntiau chi wedi effeithio’n uniongyrchol ar gynnig, a hefyd egluro bod adegau lle na allwn wneud popeth a awgrymodd y cyhoedd (ac egluro pam).

Felly, rydym yn cyflwyno’r adroddiad ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’ i ddangos i chi beth yw’r

penderfyniadau terfynol sydd wedi eu gwneud ar bob un o'r cynigion a gyflwynwyd i ymgynghori arnynt.

Os hoffech chi ddarllen yr holl fanylion am y cynigion a wnaed gan y Cyngor, a chanlyniadau'r ymgynghoriad, gallwch ddod o hyd i adroddiad llawn yma.

Beth ddwedoch chi wrthym ni

Yn Rhan 1 o'r ymgynghoriad, fe ofynnom ni'r cwestiynau yma:

1. Sut ydych chi'n meddwl y gallwn wneud toriadau pellach i ateb yr her ariannol?

2. Os ydych wedi nodi meysydd o wariant y Cyngor ar gyfer toriadau pellach, a oes gennych unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer darparu'r gwasanaethau/meysydd gwariant hyn?

Dywedoch chi:	**Gwnaethom ni:**
Adolygu strwythur rheolaeth ganol/uwch a haenau staff.	Mae strwythur uwch-reolwyr Wrecsam yn un o'r rhai lleiaf yng Nghymru ar ôl i ni ailstrwythuro uwch-reolwyr yn ddiweddar. Rydym ni'n adolygu hyn drwy'r amser.
Adolygu swyddfeydd ac asedau'r Cyngor – yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio'n well.	Mae ein hadolygiad o'n hanghenion o ran adeiladau swyddfa wedi parhau, ac er gwaethaf oedi anochel yn ystod cyfnodau clo Covid-19, mae gwaith wedi parhau i wneud cynnydd da wrth ddatblygu Canolfan Gymunedol Iechyd a Lles fodern y Cyngor yn hen Adeiladau'r Goron.
Syniadau eraill ar gyfer cynhyrchu incwm.	Mae syniadau eraill i gynhyrchu incwm sy'n deillio o'r ymgynghoriad hwn wedi'u rhannu ag adrannau eraill iddyn nhw eu hystyried. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 'Bolisi Adennill Costau', sy'n amlinellu egwyddorion i godi tâl am wasanaethau mae'n eu darparu. Mae'r polisi hwn yn sefydlu fframwaith i gytuno ar y ffioedd a godir gan y Cyngor a'u hadolygu'n rheolaidd, yn ogystal â nodi'r egwyddorion cyffredinol y bydd y Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt. Mae'r polisi'n cynnwys canllawiau i sicrhau bod ffioedd yn cael eu gosod yn briodol er mwyn i ni adennill ein costau, yn ogystal â darparu gwerth i'r cyhoedd am bris sy'n rhesymol ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r Cyngor wedi ceisio adennill costau'n llawn pan fo hynny'n bosib.
Adolygu Gwasanaethau Amgylcheddol – e.e. llai o ailgylchu, codwyr sbwriel, peidio â chasglu biniau gwyrdd yn y gaeaf, y cyfnod o amser rhwng casglu	Mae Cyngor Wrecsam yn falch o fod yn rhan o brosiect Caru Cymru, sy'n cael ei arwain gan Cadwch Gymru'n Daclus. Y weledigaeth yw i Caru Cymru gael ei blethu i mewn i fywyd yng Nghymru,

Dywedoch chi:	Gwnaethom ni:
biniau, gwelliannau i'r ffyrdd, ac ati... cynnwys pobl wrth wella'r amgylchedd fel eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb a darparu'r sgiliau iddynt.	fel ei bod yn dod yn ail natur i bawb wneud y peth cywir, o fynd â sbwriel adref gyda chi a glanhau ar ôl eich ci, i ailgylchu pan fyddwch chi allan o amgylch y lle, ailddefnyddio a thrwsio. Rydym ni'n gweithio gyda grwpiau cymunedol, ysgolion a busnesau i sicrhau bod pawb yn gallu chwarae eu rhan i wella Wrecsam. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall pa mor dda mae pobl yn ailgylchu gwastraff eu cartref, a sut allem ni eu helpu i wella'u harferion ailgylchu. Byddwn yn cynnal nifer o arolygon ac ymarferion ymgysylltu i'n helpu i ddod o hyd i unrhyw welliannau positif y gallwn eu gwneud.
Parhau gyda'r Ffyrdd Modern o Weithio sy'n caniatáu i staff ac Aelodau Etholedig weithio gartref gan arwain at arbed costau cynnal, swyddfeydd, costau teithio ac ati. Buddsoddi mewn darpariaethau TG.	Roedd y Cyngor eisoes wedi cydnabod yr angen i sicrhau bod y Cyngor yn fodern a chadarn cyn Covid-19, ac mae wedi cyflymu ei raglen ar ffyrdd modern o weithio i fodloni'r gofynion hynny, ond hefyd i ddefnyddio'r hyn sydd wedi'i ddysgu i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd posib' yn y dyfodol. Ers mis Mawrth 2020, mae mwyafrif y staff wedi gallu gweithio'n hyblyg ac/neu o gartref, gan gydbwyso hyn gyda rhywfaint o amser yn y gweithle. Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn isadeiledd TG i sicrhau ei fod yn gallu darparu platfform cadarn, gwydn a diogel i gefnogi amcanion Cyngor modern a chadarn. Mae datrysiadau TGCh a digidol wedi cael eu datblygu'n gyflym i gefnogi'r trefniadau gweithio newydd sy'n cael eu hyrwyddo yn y rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio ac wedi'u cyflymu fwy fyth oherwydd y pandemig Covid-19. Mae mwy a mwy o wasanaethau ar-lein wedi'u darparu ar gyfer cwsmeriaid. Mae 24 o wasanaethau ychwanegol ar gael ar-lein a derbyniwyd mwy na 60,000 o geisiadau am wasanaeth ar-lein yn ystod 2020/21.
Lleihau neu gael gwared â thâl/treuliau i Aelodau Etholedig, yn cynnwys codiadau cyflog.	Mae cyflogau Cynghorwyr yn cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cenedlaethol cyson ar gyfer taliadau i aelodau. Ni chaniateir i gynghorau unigol osod lwfansau y tu hwnt i gyfraddau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
Gwella prosesau o fewn Adrannau er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon ac felly ni fydd angen gwneud toriadau pellach.	Mae Strategaeth TGCh a Digidol 2020-23 y Cyngor yn ceisio darparu'r dechnoleg gywir a'r gefnogaeth angenrheidiol i staff i allu gweithio'n hyblyg ac yn gost-effeithiol. Mae'r strategaeth yn hyrwyddo gwella gwasanaethau'n barhaus gan ddefnyddio data a gwybodaeth fusnes, ochr yn

Dywedoch chi:	Gwnaethom ni:
	ochr â manteisio ar dechnoleg newydd i wella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.
Lleihau nifer yr Aelodau Etholedig.	Nid y Cyngor sy'n pennu nifer y Cynghorwyr sy'n cael eu hethol ar gyfer y fwrdeistref sirol. Caiff hyn ei bennu gan Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhellion gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2021 ac o ganlyniad, bydd nifer y Cynghorwyr yn cynyddu o 52 i 56 ym mis Mai 2022. Roedd y Cyngor wedi gwrthwynebu'r cynnydd hwn.
Ddim yn teimlo y dylid gwneud mwy o doriadau.	Mae gofyn cyfreithiol ar y Cyngor i gynnal cyllideb gytbwys mewn cyfnod pan fo toriadau'n cael eu gwneud i'w gyllid. Er nad yw'r Cyngor yn dymuno gwneud toriadau i wasanaethau gwerthfawr, rhaid iddo fodloni'r gofyniad hwn sy'n galw arno i wneud dewisiadau anodd o ran blaenoriaethu.
Lleihau gwariant ar ymgynghorwyr/cwmnïau allanol/y trydydd sector.	Yn rhan o brosesau'r Cyngor, byddwn bob amser yn ystyried a oes modd darparu gwasanaeth yn well a/neu yn fwy effeithlon, ac mewn partneriaeth ag eraill os bydd amserlenni a ffactorau eraill yn caniatáu i ni wneud hynny.
Adolygu telerau ac amodau staff (teithio, buddion a threuliau). Rhewi swyddi gwag.	Mae gweithwyr y Cyngor yn dod o dan orchymyn cyflog ac amodau cenedlaethol, ac mae rhai cyd-drefniadau lleol wedi'u cytuno'n ffurfiol gydag undebau llafur cydnabyddedig. Mae gan y Cyngor broses rheoli swyddi gwag lle mae'r holl swyddi gweigion yn cael eu hadolygu i sicrhau bod cyfleoedd am newid swyddi, penodiadau mewnol neu adleoli a allai arwain at arbedion yn cael eu hystyried cyn recriwtio i sicrhau mai dim ond pan mae angen mae'r Cyngor yn recriwtio. Mae Gwasanaethau'n adolygu eu hanghenion/strwythurau staffio trwy ymarferion blynyddol i gynllunio gwasanaeth a chynllunio ar gyfer y gweithlu i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau maent wedi ymrwymo iddynt yn y ffordd fwyaf effeithiol o ran adnoddau.
Dileu/lleihau rôl y maer.	Mae angen i'r Cyngor ethol pennaeth dinesig i gadeirio prif gyfarfodydd ac yn Wrecsam mae'r rôl hon yn cael ei chyflawni gan y Maer. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu'r cyflogau ar gyfer rolau felly, nid y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r gwariant cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gipio cyfleoedd i wneud mwy o arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn. Mae'r gwasanaeth hwn yn werthfawr i sawl rhan o'n

Dywedoch chi:	Gwnaethom ni:
	cymuned.
Adrannau ar draws y Cyngor i gydweithio mwy – gan arwain at leihau costau a gwell effeithlonrwydd ar draws gwasanaethau.	Mae adrannau o fewn y Cyngor yn cydweithio i leihau costau a gweithio'n fwy effeithlon, er enghraifft, wrth gyflwyno'r rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio, y gwaith parhaus o adolygu anghenion am swyddfeydd a datblygu Fframwaith Atal a Chymorth Cynnar er mwyn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd.

Yn Rhan 2 o'r ymgynghoriad, fe ofynnom ni'r cwestiwn yma:

- Beth ydych chi'n ei feddwl am ddull y Cyngor o osod y gyllideb ar gyfer 2021-22?

Dywedoch chi:	**Gwnaethom ni:**
Ystyried effaith ariannol Covid-19 ar deuluoedd/pobl sydd wedi colli eu swyddi/wedi bod ar ffyrlo/ar incwm isel/llai o gyflog.	Yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam, rydym wedi nodi bod angen gwella gwytnwch cymunedau. Mae rhan o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar leihau anghydraddoldeb a thlodi wrth i ni gael ein cefn atom ar ôl effeithiau'r pandemig Covid-19. Mae dull y Cyngor o osod y gyllideb yn ymwneud â blaenoriaethu gwasanaethau i sicrhau bod gwasanaethau hanfodol yn gynaliadwy ac yn gadarn, gan gynnwys blaenoriaethu'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas.
Anghytuno â'r cynnydd i Dreth y Cyngor.	Mae'r Cyngor yn cydnabod effaith cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar bobl leol a bydd angen cydbwyso hyn gyda'r effeithiau posib' ar wasanaethau os nad oes cynnydd.
Y Cyngor yn gwastraffu arian/angen defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol.	Os yw'r Cyngor yn mynd i gadw at ei flaenoriaethau a sicrhau sefydlogrwydd ariannol yn ystod y tymor canolig, bydd yn rhaid iddo barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchu incwm ychwanegol. Mae llawer o arbedion y blynyddoedd blaenorol wedi bod yn arbedion effeithlonrwydd, felly swm cyfyngedig yn unig sydd ar ôl yn y maes hwn, ond byddwn yn parhau i weithio'n galed i ddod o hyd i'r rhain a'u gweithredu.
Cytuno â'r ffordd mae'r gyllideb wedi'i gosod.	Mae gan y Cyngor brosesau sefydledig ar gyfer gosod cyllideb.
Adolygu nifer y staff/telerau ac amodau staff/rolau staff.	Mae gan y Cyngor broses rheoli swyddi gwag lle mae'r holl swyddi gweigion yn cael eu hadolygu i sicrhau bod cyfleoedd am newid swyddi, penodiadau mewnol neu adleoli a allai arwain at arbedion yn cael eu hystyried cyn recriwtio i sicrhau mai dim ond pan mae angen mae'r Cyngor yn recriwtio. Mae gweithwyr y Cyngor yn destun cyflog ac amodau cenedlaethol a rhai cydgytundebau lleol sydd wedi'u cytuno'n ffurfiol gyda'r undebau llafur cydnabyddedig. Mae Gwasanaethau'n adolygu eu hanghenion/strwythurau staffio trwy ymarferion blynyddol i gynllunio gwasanaeth a chynllunio ar gyfer y gweithlu i sicrhau eu bod yn darparu'r gwasanaethau maent wedi ymrwymo iddynt yn y

	ffordd fwyaf effeithiol o ran adnoddau.
Llai o wasanaethau/gwasanaethau gwael am gost gynyddol Treth y Cyngor.	Er mwyn osgoi toriadau i wasanaethau, mae'r Cyngor yn parhau i ystyried opsiynau amgen i ddarparu gwasanaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n parhau'n addas at eu diben yng nghyd-destun cyllidebau llai. Gall hyn olygu edrych eto ar ddisgwyliadau trigolion er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer y rhai mwyaf bregus. Mae hefyd yn gyfle i weithio gyda phartneriaid i gynnal a gwella canlyniadau yn sgil lleihau gwariant cyhoeddus.
Lleihau nifer y Cynghorwyr/gwariant ar Gynghorwyr.	Nid y Cyngor sy'n pennu nifer y Cynghorwyr sy'n cael eu hethol ar gyfer y fwrdeistref sirol. Caiff hyn ei bennu gan Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhellion gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2021 ac o ganlyniad, bydd nifer y Cynghorwyr yn cynyddu o 52 i 56 ym mis Mai 2022. Roedd y Cyngor wedi gwrthwynebu'r cynnydd hwn. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n pennu cyflogau Cynghorwyr, nid y Cyngor.
Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd (e.e. ar ffyrdd a systemau draenio).	Rydym yn parhau i archwilio ein priffyrdd yn unol â'n polisïau, ac mae ein ffigyrau perfformiad yn dangos ein bod wedi gwella'n sylweddol. Rydym yn parhau i adolygu ein polisïau i sicrhau eu bod yn addas ac yn sicrhau'r arfer gorau, ac rydym yn chwilio am gyfleoedd i wella ein rhwydwaith ffyrdd.
Beirniadol o brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor/awgrymiadau blaenorol heb eu gweithredu/angen gwella effeithiolrwydd y broses ymgynghori.	Mae'r her ariannol yn cynyddu'r angen i gynnwys dinasyddion, er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r rhesymeg dros newid a pham mae'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Trwy gyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu'n glir, gallwn helpu i reoli disgwyliadau'r cyhoedd, yn ogystal â deall eu barn nhw am y ffordd ymlaen, fel y gallant ddylanwadu ar wasanaethau lleol yn y dyfodol.
Lleihau gwariant ar asedau'r Cyngor.	Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cadarnhaol o ran mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio a bydd y rhain yn parhau i gael eu defnyddio. Bydd hyn yn trawsnewid ein harferion gwaith trwy ddarparu gwell lleoedd i weithio, gan addasu technoleg newydd a datrysiadau digidol i wneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy barhau i gyflawni ein rhaglen o adolygu gofod swyddfa dros y blynyddoedd nesaf.
Beirniadol o setliad Llywodraeth Cymru/herio dull Llywodraeth Cymru.	Rydym yn parhau i lobïo Llywodraeth Cymru am setliad teg a chynaliadwy sy'n adlewyrchu anghenion ein cymunedau.
Adolygu rôl y Maer.	Mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r gwariant

	cyffredinol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gipio cyfleoedd i wneud mwy o arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2021-22

Canfyddiadau Allweddol

Pwrpas yr Ymgynghoriad

Pwrpas yr ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2021-22 oedd:

- Gwella dealltwriaeth y cyhoedd am faint yr her ariannol sy'n parhau i wynebu'r Cyngor a pham mae angen gwneud penderfyniadau anodd;
- Gwella gwybodaeth y cyhoedd am ein siwrnai ailffurfio ers cyflwyno'r mesurau cynni ariannol cyntaf tua diwedd 2008, yn dilyn argyfwng ariannol 2007/2008;
- Deall barn y cyhoedd a budd-ddeiliaid allweddol eraill am eu syniadau ar gyfer mwy o doriadau yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22, er mwyn ystyried y safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau.

Y dull ar gyfer Ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2021-22

O ystyried yr amgylchiadau anghyffredin sydd ar hyn o bryd, cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori dros gyfnod byrrach ac fe gafodd ei rannu'n ddwy ran. Cynhaliwyd Rhan 1 yn y cyfnod cyn i'r setliad dros dro gael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru (o 30.11.20 tan 13.12.20). Cynhaliwyd Rhan 2 ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r setliad ariannol (o 20.01.21 tan 05.02.21).
Roedd arolwg Eich Llais ar gael ar fformat ar-lein ac ar bapur yn ystod y ddwy ran o'r ymgynghoriad. Roedd aelodau'r cyhoedd hefyd yn gallu ymateb yn ysgrifenedig neu dros e-bost i gyfrif e-bost penodol. Cafodd nifer o negeseuon e-bost wedi'u targedu eu hanfon at grwpiau penodol o fudd-ddeiliaid a chynrychiolwyr grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir, er enghraifft, Senedd yr Ifanc a Chynghorau Cymuned. Yn y ddau gyfnod ymgynghori, darparwyd llyfryn o wybodaeth i'r cyhoedd a oedd yn eu hatgoffa am y chwe blaenoriaeth yr oedd y Cyngor wedi cytuno arnynt (cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheiny ym Mehefin a Gorffennaf 2019), yn cynnwys cyfeiriad at yr adborth 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' o'r ymgynghoriad blaenorol ar y gyllideb a diweddariad am Dreth y Cyngor.
Yn Rhan 1, gofynnwyd i'r cyhoedd ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Sut ydych chi'n meddwl y gallwn wneud toriadau pellach i ateb yr her ariannol?

2. Os ydych wedi nodi meysydd o wariant y Cyngor ar gyfer toriadau pellach, a oes gennych unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer darparu'r gwasanaethau/meysydd gwariant hyn?

Yn Rhan 2 o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i'r cyhoedd ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Beth ydych chi'n ei feddwl am ddull y Cyngor o osod y gyllideb ar gyfer 2021-22?

Ymatebion

Rhan 1 - Roedd cyfanswm o 299 o ymatebion i Ran 1 o'r ymgynghoriad, gyda 298 o ymatebion i'r arolwg ar-lein ac 1 llythyr.

Rhan 2 - Roedd cyfanswm o 646 o ymatebion i Ran 2 o'r ymgynghoriad, gyda 643 o ymatebion i'r arolwg ar-lein a 3 e-bost. Roedd y cyfanswm o 646 o ymatebion yn cynnwys 279 o sylwadau i'w dadansoddi mewn ymateb i ddull y Cyngor o fynd ati i osod y gyllideb ar gyfer 2021-22. Nid oedd 367 o ymatebion i'r arolwg ar-lein yn cynnwys sylwadau, ond roedd 356 o'r ymatebwyr hyn wedi darparu gwybodaeth am eu rôl yn y gymuned ac fe wnaeth 114 hefyd ddarparu rhywfaint o ddata am ddemograffeg a chydraddoldeb.

Arwyddocâd Ystadegol

Rhan 1 - Yn seiliedig ar 298 o ymatebion a gafwyd, a lle mae'r sampl o rai a gymerodd ran yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan, byddai'n rhoi Lefel Hyder o 95%[1] a Chyfwng Hyder o 5.67%[2].

Rhan 2 - Yn seiliedig ar 646 o ymatebion a gafwyd, a lle mae'r sampl o rai a gymerodd ran yn cynrychioli'r boblogaeth gyfan, byddai'n rhoi Lefel Hyder o 95% a Chyfwng Hyder o 3.85%.

Rhan 1 - Dadansoddiad o'r Arolwg

Gofynnwyd i'r cyhoedd ymateb i ddau gwestiwn agored sydd wedi'u nodi uchod. Canlyniad hyn oedd set o 299 o sylwadau ansoddol i'w dadansoddi. Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd yn yr arolwg eu dadansoddi a'u trefnu yn ôl cod/thema. Mae cyfanswm y sylwadau ar gyfer pob cynnig wedi ei nodi. Mae'r codau/themâu mwyaf cyffredin wedi eu hamlygu isod, ynghyd â nifer y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r codau/themâu penodol hynny.

Crynodeb o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein a'r llythyr:

---

[1] *Mae **lefel hyder** yn dangos pa mor hyderus y gall ymchwilydd fod ynglŷn â data sydd wedi'i gael gan sampl. Mae lefelau hyder yn cael eu nodi fel canran ac maent yn dangos pa mor aml y byddai'r ganran honno o'r boblogaeth darged yn rhoi ateb sydd o fewn y cyfwng hyder.*

[2] *Y **cyfwng hyder** yw'r ystod o wahaniaeth y gallai ymchwilydd ei disgwyl pe bai o neu hi'n gofyn cwestiwn ymchwil penodol, er enghraifft, i bob aelod o'r boblogaeth darged, gan ddisgwyl derbyn yr un atebion a roddodd aelodau'r sampl yn yr arolwg.*

Cwestiwn 1: Sut ydych chi'n meddwl y gallwn wneud toriadau pellach i ateb yr her ariannol?

Thema’r ymateb	Nifer yr Ymatebion
Adolygu swyddfeydd ac asedau’r Cyngor, yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio’n well.	25
Lleihau neu gael gwared â thâl/treuliau i Aelodau Etholedig, yn cynnwys codiadau cyflog.	23
Adolygu strwythur rheolaeth ganol/uwch a haenau staff.	22
Lleihau nifer yr Aelodau Etholedig.	19
Awgrymiadau/syniadau cynhyrchu incwm – e.e. Buddsoddi mewn gwasanaethau digidol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd, gweithio'n well ar draws adrannau’r cyngor, rhannu adnoddau gydag awdurdodau lleol eraill, gweithio gyda chynghorau cymuned i liniaru yn erbyn toriadau, dim toriadau i wasanaethau anstatudol sy’n cyfrannu at les cymunedau.	19
Adolygu Gwasanaethau Amgylcheddol – e.e. llai o ailgylchu, codwyr sbwriel, peidio â chasglu biniau gwyrdd yn y gaeaf, y cyfnod o amser rhwng casglu biniau, gwelliannau i’r ffyrdd, ac ati... cynnwys pobl wrth wella’r amgylchedd fel eu bod yn rhannu’r cyfrifoldeb a darparu’r sgiliau iddynt.	18
Ddim yn teimlo y dylid gwneud mwy o doriadau	17
Parhau gyda’r Ffyrdd Modern o Weithio sy’n caniatáu i staff ac Aelodau Etholedig weithio gartref gan arwain at arbed costau cynnal, swyddfeydd, costau teithio ac ati. Buddsoddi mewn darpariaethau TG.	17
Gwella prosesau o fewn Adrannau er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon ac felly ni fydd angen gwneud toriadau pellach.	16
Adolygu telerau ac amodau staff (teithio, buddion a threuliau). Rhewi swyddi gwag.	12
Lleihau gwariant ar ymgynghorwyr/cwmnïau allanol/y trydydd sector.	12
Dileu/lleihau rôl y maer.	11
Adrannau ar draws y Cyngor i gydweithio mwy – gan arwain at leihau costau a gwell effeithlonrwydd ar draws gwasanaethau.	10

Llythyr (un ymateb):

Thema’r ymateb
Ddim yn teimlo y dylid gwneud mwy o doriadau
Adolygu strwythur rheolaeth ganol/uwch a haenau staff.
Adolygu swyddfeydd ac asedau’r Cyngor, yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio’n well.

Cwestiwn 2: Os ydych wedi nodi meysydd o wariant y Cyngor ar gyfer toriadau pellach, a oes gennych unrhyw awgrymiadau amgen ar gyfer darparu'r gwasanaethau/meysydd gwariant hyn?

Thema'r ymateb	Nifer yr Ymatebion
Adolygu strwythur rheolaeth ganol/uwch a haenau staff.	12
Parhau gyda'r Ffyrdd Modern o Weithio sy'n caniatáu i staff ac Aelodau Etholedig weithio gartref gan arwain at arbed costau cynnal, swyddfeydd, costau teithio ac ati. Buddsoddi mewn darpariaethau TG.	7
Awgrymiadau/syniadau cynhyrchu incwm. e.e Buddsoddi yng nghanol y dref i gefnogi busnesau a denu ymwelwyr, ystyried darparu rhai gwasanaethau trwy gyflenwyr allanol, symleiddio gwasanaethau, buddsoddi mewn cynhyrchu incwm.	7
Gwella prosesau o fewn Adrannau er mwyn eu gwneud yn fwy effeithlon ac felly ni fydd angen gwneud toriadau pellach.	6
Adolygu Gwasanaethau Amgylcheddol – e.e. llai o ailgylchu, codwyr sbwriel, peidio â chasglu biniau gwyrdd yn y gaeaf, y cyfnod o amser rhwng casglu biniau, gwelliannau i'r ffyrdd, ac ati... cynnwys pobl wrth wella'r amgylchedd fel eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb a darparu'r sgiliau iddynt.	6
Dileu/lleihau rôl y maer.	5
Lleihau gwariant ar ymgynghorwyr/cwmnïau allanol/y trydydd sector.	5
Adolygu telerau ac amodau staff (teithio, buddion a threuliau). Rhewi swyddi gwag.	4
Adolygu swyddfeydd ac asedau'r Cyngor – yn cynnwys sut y gellir eu defnyddio'n well.	4

Rhan 2 - Dadansoddiad o'r Arolwg

Gofynnwyd i'r cyhoedd ymateb i un cwestiwn agored sydd wedi'i nodi uchod. Canlyniad hyn oedd set o 279 o sylwadau ansoddol i'w dadansoddi. Cafodd y sylwadau eu dadansoddi a'u trefnu yn ôl cod a thema. Mae'r themâu mwyaf cyffredin wedi eu hamlygu isod, ynghyd â nifer y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r thema honno.

Crynodeb o ymatebion i Ran 2 o'r ymgynghoriad:

Cwestiwn: Beth ydych chi'n ei feddwl am ddull y Cyngor o osod y gyllideb ar gyfer 2021-22?

Thema	Nifer yr Ymatebion
Ystyried effaith ariannol Covid-19 ar deuluoedd/pobl sydd wedi colli eu swyddi/wedi bod ar ffyrlo/ar incwm isel/llai o gyflog.	84
Anghytuno â'r cynnydd i Dreth y Cyngor.	56
Y Cyngor yn gwastraffu arian/angen defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon ac effeithiol.	51
Cytuno â'r ffordd mae'r gyllideb wedi'i gosod.	32
Adolygu nifer y staff/telerau ac amodau staff/rolau staff.	30
Llai o wasanaethau/gwasanaethau gwael am gost gynyddol Treth y Cyngor.	28
Lleihau nifer y Cynghorwyr/gwariant ar Gynghorwyr.	22
Gwneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd (e.e. ar ffyrdd a systemau draenio).	20
Beirniadol o brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor/awgrymiadau blaenorol heb eu gweithredu/angen gwella effeithiolrwydd y broses ymgynghori.	19
Lleihau gwariant ar asedau'r Cyngor.	13
Beirniadol o setliad Llywodraeth Cymru/herio dull Llywodraeth Cymru.	12
Adolygu rôl y Maer.	12

Rhan 1 - Adran 'Amdanoch Chi' o'r Arolwg

Atebodd 295 o bobl un neu fwy o gwestiynau yn yr adran 'Amdanoch Chi' o'r arolwg yn ystod Rhan 1 o'r ymgynghoriad. Mae'r dadansoddiad o'r data fesul grŵp yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Data 'Amdanoch Chi'

Casglwyd y data hwn gan rai a ymatebodd i arolwg yr ymgynghoriad yn unig.

Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr ateb cwestiwn gorfodol 'Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel unigolyn neu ar ran grŵp?'

Atebodd 298 o bobl y cwestiwn hwn

Ydych chi'n...	Nifer	Canran
Unigolyn	296	99.3%
Grŵp	2	0.7%

Dewisol oedd ymateb i weddill y cwestiynau 'Amdanoch Chi' ac felly ni chawsant eu cwblhau gan holl ymatebwyr yr ymgynghoriad. Atebodd cyfanswm o 295 o bobl y cwestiwn isod:

Atebodd 295 o bobl y cwestiwn hwn

Ydych chi'n...	Nifer	Canran
Byw'n lleol	211	70.8%
Gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	67	22.5%
Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	0	0.0%
Aelod Etholedig o Gyngor Tref neu Gymuned ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam	9	3.0%
Darparwr Gwasanaeth	2	0.7%
Arall	6	2.0%

Ymatebodd cyfanswm o 145 o bobl i rai neu bob un o'r cwestiynau isod:

Atebodd 151 o bobl y cwestiwn: Faint yw eich oed?

Faint yw eich oed?	Nifer	Canran
0-15 oed	1	0.7%
16-24	6	4.0%
25-34	8	5.3%
35-44	25	16.6%
45-54	45	29.8%
55-64	39	25.8%
65-74	26	17.2%
75+	1	0.7%

Atebodd 151 o bobl y cwestiwn: Beth yw eich rhyw?

Beth yw eich rhyw?	Nifer	Canran
Gwryw	52	34.4%
Benyw	97	64.2%
Arall	2	1.3%

Atebodd 147 o bobl y cwestiwn: A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?

A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?	Nifer	Canran
Ydi – wedi ei gyfyngu'n arw	11	7.3%
Ydi – wedi ei gyfyngu ychydig	14	9.3%
Nac ydi	115	76.2%
Mae'n well gen i beidio â dweud	7	4.6%

Atebodd 148 o bobl y cwestiwn: Beth yw eich grŵp ethnig?

Beth yw eich grŵp ethnig?	Nifer	Canran
Gwyn	137	92.6%
Cymysg/grwpiau aml-ethnig	0	0%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	2	1.4%
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig	0	0%
Grŵp ethnig arall	3	2%
Mae'n well gen i beidio â dweud	6	4.1%

Atebodd 146 o bobl y cwestiwn: Pa iaith sydd orau gennych chi?

Pa iaith sydd orau gennych chi?	Nifer	Canran
Saesneg	136	93.2%
Cymraeg	10	6.8%
Arall	0	0.0%

Rhan 2 - Adran 'Amdanoch Chi' o'r Arolwg

Atebodd cyfanswm o 353 o bobl un neu fwy o gwestiynau yn yr adran 'Amdanoch Chi' o'r arolwg yn ystod Rhan 2 o'r ymgynghoriad. Mae'r dadansoddiad o'r data fesul grŵp yn seiliedig ar yr ymatebion hyn.

Gofynnwyd i holl ymatebwyr yr arolwg ateb cwestiwn gorfodol 'Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn fel unigolyn neu ar ran grŵp?'

Atebodd 643 o bobl y cwestiwn hwn.

Ydych chi'n...	Nifer	Canran
Unigolyn	639	99.4%
Grŵp	4	0.6%

Dewisol oedd ymateb i weddill y cwestiynau 'Amdanoch Chi' ac felly ni chawsant eu cwblhau gan holl ymatebwyr yr ymgynghoriad. Ymatebodd cyfanswm o 631 o bobl i'r cwestiwn isod:

Ydych chi'n...	Nifer	Canran
Byw'n lleol	471	74.6%
Gweithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	135	21.4%
Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	1	0.2%
Aelod Etholedig o Gyngor Tref neu Gymuned ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam	12	1.9%
Darparwr Gwasanaeth	3	0.5%
Arall	9	1.4%

Ymatebodd cyfanswm o 353 o bobl i rai neu bob un o'r cwestiynau isod:

Atebodd 343 o bobl y cwestiwn: Faint yw eich oed?

Faint yw eich oed?	Nifer	Canran
0-15 oed	1	0.3%
16-24	2	0.6%
25-34	29	8.5%
35-44	58	16.9%
45-54	102	29.7%
55-64	88	25.7%
65-74	56	16.3%
75+	7	2.0%

Atebodd 340 o bobl y cwestiwn: Beth yw eich rhyw?

Beth yw eich rhyw?	Nifer	Canran
Gwryw	140	41.2%
Benyw	199	58.5%
Arall	1	0.3%

Atebodd 338 o bobl y cwestiwn: A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?

A yw eich gweithgarwch bob dydd wedi ei gyfyngu oherwydd problem iechyd neu anabledd sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, am o leiaf 12 mis?	Nifer	Canran
Ydi – wedi ei gyfyngu'n arw	17	5.0%
Ydi – wedi ei gyfyngu ychydig	42	12.4%
Nac ydi	268	79.3%
Mae'n well gen i beidio â dweud	11	3.3%

Atebodd 332 o bobl y cwestiwn: Pa iaith sydd orau gennych chi?

Pa iaith sydd orau gennych chi?	Nifer	Canran
Saesneg	315	94.9%
Cymraeg	17	5.1%
Arall	0	0.0%